



**CYFLWR
Y
GENEDL**



chwaraeteg.com



02920 462 745



@chwaraeteg #SotN



CYFLWYNIAD

Dyma'r drydedd flwyddyn i ni gyhoeddi adroddiad Cyflwr y Genedl, a'i bwrpas yw monitro cynnydd, neu, i sicrhau nad oes unrhyw un yn hunanfodlon ynghylch yr angen am weithredu ac ymdrechu'n barhaus tuag at wir gydraddoldeb rhyweddol i bob merch. Mae ein hadroddiad yn dilyn yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywedd a gynhaliwyd yn 2018, pan addawodd Llywodraeth Cymru wneud Cymru yn arweinydd y byd ym maes cydraddoldeb rhyweddol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y data diweddaraf i'n helpu i benderfynu pa mor gyfartal yw Cymru. Er bod y Bwlch Cyflog ar Sail Rhywedd yn rhoi arwydd da o ran i ble rydym wedi symud ymlaen, nid yw bob amser yn cyflwyno'r darlun llawn o'r materion allweddol y mae menywod yn eu hwynebu. Felly, mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at anghydraddoldeb

yn erbyn y tri dangosydd allweddol hyn; menywod yn yr economi, cynrychiolaeth menywod, menywod mewn perygl.

Yn 2020, taflodd Covid-19 gysgod dros bopeth rydyn ni'n ei wybod, a newidiodd ein ffordd o fyw, gweithio a chymdeithasu. Mae rhai grwpiau wedi cael eu taro'n galetach nag eraill gan gynnwys menywod, pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), pobl ifanc, pobl anabl a'r rhai sy'n byw ar incwm isel sydd i gyd wedi cael eu heffeithio'n anghymesur gan effeithiau'r pandemig ar iechyd a'r economi. Mae bywydau llawer o bobl wedi newid yn syfrdanol yn sgil Covid-19 o ganlyniad i brofedigaeth, colli swyddi, ynysu, straen a phryder a mwy, a bydd y rhain yn effeithio ar ein bywydau am flynyddoedd i ddod.

Er nad oes unrhyw un profiad yn unig o Covid-19 i fenywod, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn monitro'r effaith ar brofiadau menywod: mewn gwaith a'r economi, tlodi, arwahanrwydd a chaledi cymdeithasol; profiadau menywod o aflonyddu, cam-drin a thrais; a'n bod yn parhau i fonitro pwy sy'n dal y pŵer yng Nghymru, a phwy sy'n ein cynrychioli ni i gyd.

Ni fydd y ffigurau yn yr adroddiad hwn yn dangos effaith lawn Covid-19 ar fenywod yng Nghymru eto. Ond eisoes gallwn weld bod effaith cau sectorau, cau busnesau, a diweithdra'n syrthio'n anghymesur ar fenywod. Mae menywod wedi bod 5% yn fwy tebygol o fod wedi colli eu swyddi oherwydd Covid-19 na dynion.¹ Yn ystod argyfwng Covid-19 rydym wedi gweld mwy

o ymwybyddiaeth a sylw o brofiad 'gweithwyr allweddol', rolau sy'n cael eu dominyddu gan fenywod, gyda menywod yn cynrychioli 77% o'r llafurlu sydd â risg uchel o ddal Covid-19.²

Mae ystod o ymyriadau newydd gan Lywodraethau Cymru a'r DU wedi bod yn nodwedd o'r flwyddyn hefyd. Er mwyn sicrhau nad ydym yn gwaethygu'r anghydraddoldebau y mae Covid-19 wedi eu hamlygu'n glir, mae angen dadansoddiad rhywedd llawer mwy cadarn arnom wrth ddylunio a gweithredu cefnogaeth. Mae angen i ni gydnabod bod pethau wedi newid, ac am byth o bosib. Mae gan y cynnydd mewn gweithio gartref y potensial i rymuso menywod, a phobl a oedd o'r blaen wedi'u cloi allan o fuddion cyfranogiad economaidd.

Ond gan mai menywod sy'n dal i ddwyn baich mwyaf cyfrifoldebau gofalu, addysgu gartref a gwaith tŷ, gallai hyn hefyd fod yn fodd pellach o ormesu menywod.

Felly er na fydd gwir effaith Covid-19 i'w weld eto yn yr adroddiad Cyflwr y Genedl hwn, bydd Covid-19 yn parhau gael lle blaenllaw yn ein dadansoddiad a'n dealltwriaeth o'r byd am gryn amser i ddod. Fe ddylen ni ddefnyddio hyn fel ysgogiad, os ydym am weld Cymru sy'n fwy cyfartal o ran rhywedd erbyn diwedd y 2020au.



Menywod yn yr Economi

Creu Cymru lle mae menywod yn cyflawni a ffynnu ym mhob sector ac ar bob lefel o'r economi



Cynrychiolaeth Menywod

Creu Cymru lle mae menywod yn weladwy ac yn ddylanwadol ym mhob sector o'r economi, cymdeithas a bywyd cyhoeddus



Menywod mewn Perygl

Creu Cymru lle mae menywod yn cael eu grymuso i wireddu eu potensial, waeth beth yw eu cefndir, eu statws cymdeithasol na'u lleoliad daearyddol



CROESTORIADOLDEB

Pan fyddwn yn siarad am sicrhau cydraddoldeb rhyweddol, rydym yn sicrhau bod hyn yn golygu cydraddoldeb i holl fenywod Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni ganolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf ar y cyrion yn gyntaf; y menywod sy'n wynebu'r rhwystrau a'r anfantais fwyaf. Mae hyn yn golygu cymryd agwedd groestoriadol.

Mae croestoriadoldeb yn golygu cydnabod y ffordd y mae strwythurau pŵer yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn creu anghydraddoldeb, gwahaniaethu a gormes. Mae'n ymwneud â deall sut y gall nodweddion fel rhywedd, hil, rhywioldeb, anabledd, dosbarth, oedran a ffydd yn aml ryngweithio a chynhyrchu profiadau niferus o anfantais. Mae'n hanfodol ymgorffori dull cwbl groestoriadol wrth lunio polisiau. Dull sy'n cydnabod sut

mae nodweddion fel rhywedd, hil, ethnigrwydd, ffydd, anabledd, oedran, rhywioldeb a dosbarth yn parhau i ddylanwadu ar fynediad at bŵer, dylanwad, adnoddau a braint.


Gall data fod yn her o ran croestoriadoldeb, yn enwedig yng Nghymru lle gall grwpiau sampl fod yn fach, ac yn aml nid oes data wedi'i ddadgyfuno ar gael. Er gwaethaf ymrwymiad cryf gan ystadegwyr o fewn Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i wella argaeledd data a thystiolaeth wedi'i dadgyfuno, mae'n debygol y bydd data'n parhau i fod yn her ar gyfer rhai grwpiau. Felly mae'n bwysig bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gall data ansoddol a phrofiad byw ategu data meintiol i ddeall yr heriau sy'n wynebu gwahanol grwpiau o fenywod a nodi'r atebion polisi sydd eu hangen er mwyn eu goresgyn.

Yn ystod argyfwng Covid-19, mae'r angen am well data wedi dod yn bwysicach fyth. Mae maint y data sy'n cael ei gyhoeddi wedi cynyddu, ac yn gywir bu ffocws ar ddeall sut mae'r pandemig yn effeithio ar wahanol grwpiau. Mae rhai ffigurau sy'n dangos effeithiau gwahaniaethol y pandemig wedi'u cynnwys yn yr adran nesaf.

Mae argyfwng Covid-19 wedi datgelu pa mor anghyfartal yw ein heconomi a'n cymdeithas o hyd, ac wrth i ni barhau i lywio'r argyfwng, a throi ein meddyliau at adferiad, bydd yn hollbwysig edrych ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb. Mae data a thystiolaeth dda yn sylfaen hanfodol ar gyfer y gwaith hwn, ac er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni gwir gydraddoldeb rhyweddol i bob menyw.

ANABLEDD A GWEITHGARWCH ECONOMAIDD 2019-2020


Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2018-Mehefin 2019 a Gorffennaf 2019-Mehefin 2020



STATWS CYFLOGAETH YN ÔL RHYWEDD AC ETHNIGRWYDD

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2018-Mehefin 2019 a Gorffennaf 2019-Mehefin 2020

Legend: Gwyn 2020 (Dark Purple), Gwyn 2019 (Light Purple), Lleiafrif ethnig 2020 (Dark Green), Lleiafrif ethnig 2019 (Light Green)





**MAE MENYWOD YNG
NGHYMRU DDWYWAITH
YN FWY TEBYGOL O
FOD YN WEITHWYR
ALLWEDDOL⁴**



**MAE 98% O WEITHWYR
AR GYFLOG ISEL MEWN
SECTORAU SYDD Â
RISG UCHEL O DDOD I
GYSYLLTIAD Â COVID-19
YN FENYWOD⁵**



**YN YSTOD Y CYFNOD
CLO, ROEDD MAMAU'N
GWNEUD 35% O NIFER YR
ORIAU GWAITH DI-DOR A
WNAETH Y TAD CYFFREDIN⁶**



**MAE 72% O FAMAU SY'N
GWEITHIO WEDI GWEITHIO
LLAI O ORIAU AC WEDI
TORRI EU HENILLION
OHERWYDD DIFFYG GOFAL
PLANT⁷**

COVID-19

Er bod argyfwng Covid-19 wedi dangos rhai agweddau o'r natur ddynol ar ei gorau, gyda chymunedau a chymdogion yn dod ynghyd i ofalu am ei gilydd, a chydabyddiaeth ledled y wlad o'r ymrwymiad a'r aberth a wnaed gan y rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen, mae hefyd wedi datgelu pa mor hollol anghyfartal yw cymdeithas Cymru o hyd.

Trwy gydol argyfwng Covid-19, rydym wedi gweld yr un grwpiau yn cael eu taro galetaf eto. Mae menywod, pobl groenliw, pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a'r rhai sy'n byw ar incwm isel, i gyd wedi cael eu heffeithio'n anghymesur gan effeithiau iechyd ac economaidd y pandemig. Nid yw hyn yn anochel. Mae'n ganlyniad i ba mor gwbl ddiffygiol yw ein dull economaidd presennol ac mae'n

dangos methiant cyfunol i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb.

Canfu ymchwil Chwarae Teg a oedd yn archwilio profiadau menywod yng Nghymru yn ystod pandemig Covid-19 fod yr argyfwng yn effeithio ar bob agwedd ar fywydau menywod, gan gynnwys eu hiechyd a'u diogelwch, eu cyflogaeth a'u cyllid a'u rôl fel gofaluwr.³ Mae'r argyfwng wedi datgelu ein dibyniaeth ar ofal di-dâl menywod, gyda menywod yn dwyn y baich mwyaf o ran cyfrifoldebau gofal plant ychwanegol ac addysgu gartref trwy'r cyfan. Mae hyn wedi effeithio'n drwm ar eu gwaith cyflogedig, a gallai fod ag oblygiadau hirdymor o ran eu cyflogaeth a'u dilyniant gyrfa.

Mae'r argyfwng hefyd wedi cael effaith sylweddol fwy difrifol ar

wahanol grwpiau o fenywod. Mae menywod BAME dair gwaith yn fwy tebygol o fod mewn gwaith ansicr, ac felly maent yn llai tebygol o fod yn gymwys i gael ffyrlo neu Tâl Salwch Statudol; yn fwy tebygol o fod ar gyflog isel ac eisoes yn byw mewn tlodi, yn ogystal â bod â lefelau is o gynilion er mwyn ymdopi â chwymp mewn enillion. At hynny, mae menywod BAME yn cael eu gorgynrychioli mewn swyddi yn y sectorau iechyd a gofal lle maent yn wynebu mwy o gysylltiad â'r firws a phrinder cyfarpar diogelu personol, neu gyfarpar diogelu personol anaddas.⁸

Mae pobl BAME wedi'u gorgynrychioli yn y sectorau sydd â'r risg uchaf o ddal y firws, ac yn y sectorau hynny sydd wedi gorfod cau:⁹

- Mae 17.7% o boblogaeth BAME yng Nghymru yn cael eu cyflogi ym maes gofal iechyd o'i gymharu

- â 7.7% o weithwyr gwyn
- Mae 7.1% o boblogaeth BAME yng Nghymru yn cael eu cyflogi mewn gofal cymdeithasol o'i gymharu â 5% o weithwyr gwyn
- Mae 20% o'r holl weithwyr o gefndir BAME yn gweithio mewn diwydiannau y dywedwyd wrthynt i gau, o'i gymharu â 15% o weithwyr gwyn.

Mae Covid-19 wedi sbarduno symudiad cyflym i weithio gartref. I rai menywod anabl mae hyn wedi gwella eu llesiant a'u profiad yn y gwaith, ond i eraill nid yw hyn wedi bod yn wir. Bydd angen monitro effaith barhaus Covid-19 ar bobl anabl a newidiadau cysylltiedig yn ein ffordd o fyw a gweithio.

- Canfu dros hanner yr ymatebwyr i arolwg Unsain fod pobl anabl yn credu y byddent yn elwa o barhau i weithio gartref ar ôl y pandemig.¹⁰
- Gwrthodwyd cais un o bob pump

- o weithwyr anabl am weithio gartref, cael eu rhoi ar ffyrlo neu eu hadleoli.¹¹
- Rhoddwyd 22% o staff anabl mewn "sefyllfa amhosibl" o orfod dewis rhwng cadw eu swydd neu gadw'n ddiogel.¹²

Wrth i argyfwng Covid-19 barhau, rydym mewn cyd-destun gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol sy'n newid yn barhaus. Mae'n hanfodol ein bod yn monitro'r effaith ar fenywod a grwpiau bregus eraill wrth i raddau llawn yr effeithiau economaidd ddod i'r amlwg, er mwyn sicrhau bod ein hymateb polisi cyhoeddus yn addas at y diben. Ni fu erioed mwy o angen am ddata wedi'i ddadgyfuno a mecanweithiau ar gyfer clywed gan y rhai sydd â phrofiadau byw.



MENYWOD YN YR ECONOMI

Mae anghydraddoldeb economaidd rhwng menywod a dynion yn deillio o'r gwahanol rolau, sectorau, galwedigaethau a mathau o gontractau y mae menywod yn fwy tebygol o gael eu cyflogi ynddynt, a hynny yn ei dro yn cael ei siapio gan y pwysau mwy y mae menywod yn aml yn ei wynebu oherwydd cyfrifoldebau gofalu.

Mae argyfwng Covid-19 wedi cyflwyno heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen, o ran iechyd y cyhoedd ond hefyd mewn perthynas â'r economi. Rydym wedi gweld newidiadau cyflym o ran sut a ble mae pobl yn gweithio, pwysau eithafol yn cael ei roi ar y rhai sy'n gweithio mewn rolau rheng flaen neu "weithiwr allweddol", ac eraill sy'n wynebu cyfnodau hir ar ffyrlo. Nid y sectorau yr effeithir arnynt fwyaf yw'r rhai sydd fel arfer yn dwyn baich yr heriau economaidd mwyaf,

ond yn hytrach y rheini â chyfran lawer uwch o fenywod, pobl ifanc a phobl BAME yn gweithio ynddynt.

Ni all y data a gynhwyswn yma adrodd stori lawn effaith argyfwng Covid-19. Mae'n ddarlun sy'n newid yn barhaus, ac efallai na fyddwn yn gallu deall yr effaith honno'n well ar ein heconomi ac ar fenywod tan adroddiad Cyflwr y Genedl y flwyddyn nesaf. Felly, rydym yn annog pwyll rhag dod i ormod o gasgliadau o'r data a gyflwynir yma gan fod yn rhaid i ni barhau i fonitro'r dystiolaeth i sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion menywod yng Nghymru. O ystyried y cafeat hwnnw, mae'r data'n rhoi mewnwelediadau defnyddiol i raddfa anghydraddoldeb yn economi Cymru, gan gynnig darlun cymysg. Bu newid cadarnhaol yn y bwlch cyflog ar sail rhywedd, sydd eleni yn 11.6%, i lawr

o 14.5%.¹³ Bellach mae pedair ardal awdurdod lleol â bwlch cyflog ar sail rhywedd negyddol, h.y. lle mae menywod yn ennill mwy na dynion ar gyfartaledd, ond mae'r data ar y lefel hon yn parhau i fod yn gyfnewidiol gydag amrywiad sylweddol rhwng 2019 a 2020 ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

Nid oes llawer o newid yn y cyfraddau cyflogaeth a gweithgaredd economaidd; mae dynion yn parhau i fod yn fwy tebygol o fod mewn gwaith yn gyffredinol. Bu gostyngiad bach yn y gyfradd diweithdra ymhlith dynion, er na fu unrhyw newid i fenywod a gallai hynny o bosibl ehangu'r bwlch cyflogaeth ar sail rhywedd. Fodd bynnag, gwelir rhai newidiadau sylweddol yn y ffigurau cyflogaeth wrth i'r data gael ei ddadansoddi yn ôl rhywedd ac oedran; gostyngodd gweithgaredd economaidd menywod ifanc 16-24 oed bron i 2.5% o'i gymharu â'r llynedd. Mae menywod yn parhau i fod bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar oherwydd gofalu am y teulu/y cartref er gwaethaf gostyngiad bach yng nghyfran gyffredinol y menywod

economaidd anweithgar sy'n nodi'r rheswm hwn.¹⁴ Mae menywod hefyd yn parhau i fod yn sylweddol fwy tebygol o weithio'n rhan-amser, gan eu gadael yn fwy agored i galedi ariannol ac er bod cyfran y dynion sy'n symud i hunangyflogaeth yn parhau i gynyddu, ni ellir dweud yr un peth am fenywod, sy'n peryglu'r bwlch hunangyflogaeth ar sail rhywedd ymhellach. Mae risg wirioneddol wrth i ni symud allan o'r pandemig tuag at adferiad, mai menywod fydd yr olaf i ddychwelyd i'r farchnad lafur wrth iddynt barhau i ysgwyddo mwyafrif y cyfrifoldebau gofalu ac addysgu gartref.


TÂL FESUL AWR

2019 2020

CYFLOG YR AWR I WEITHWYR BENYWAIDD



CYFLOG YR AWR I WEITHWYR GWRYWAIDD




CYFLOG CANOLRIFOL YR AWR HOLL WEITHWYR YNG NGHYMURU



Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), Dadansoddiad yn y Gweithle 2019-2020

BWLCH CYFLOG AR SAIL RHYWEDD YN ÔL AWDURDOD LLEOL

Ffynhonnell: ASHE, Dadansoddiad o'r Gweithle, 2020



BWLCH CYFLOG AR SAIL RHYWEDD, CYMHARIAETH O WEITHWYR 2019-2020

AWDURDOD LLEOL	2019	2020	GWAHANIAETH
Y DEYRNAS UNEDIG	17.3%	15.5%	-1.9%
CYMRU	14.5%	11.6%	-2.9%
TORFAEN	25.6%	27.7%	+2.1%
RHONDDA CYNON TAF	21.9%	22.5%	+0.6%
CASNEWYDD	12.3%	20.1%	+7.8%
CASTELL-NEDD PORT TALBOT	20.9%	19.0%	-1.9%
SIR Y FFLINT	21.3%	18.5%	-2.8%
POWYS	12.3%	15.4%	+3.2%
BLAENAU GWENT	23.8%	15.0%	-8.7%
BRO MORGANNWG	21.9%	14.8%	-7.1%
CAERDYDD	18.7%	13.8%	-4.9%
SIR DDINBYCH	9.1%	13.0%	+3.9%
WRECSAM	12.6%	12.3%	-0.3%
CAERFFILI	12.7%	8.5%	-4.2%
SIR FYNWY	7.3%	7.1%	-0.1%
SIR PENFRO	17.1%	5.0%	-12.1%
PEN-Y-BONT AR OGWR	20.2%	4.3%	-16.0%
ABERTAWE	10.8%	1.9%	-8.9%
MERTHYR TUDFUL	-10.7%	1.9%	+12.6%
SIR GAERFYRDIN	-0.2%	1.3%	+1.6%
YNYS MÔN	17.8%	-4.2%	-22.0%
CONWY	2.3%	-7.2%	-9.5%
GWYNEDD	5.8%	-7.5%	-13.2%
CEREDIGION	10.9%	-13.5%	-24.4%

80.5%
O DDYNION

A

73.4%
O FENYWOD

RHWNG

16-64
YEARS

YN




WEITHREDOL
YN
ECONOMAIDD



GWEITHGARWCH ECONOMAIDD

CYFRADD GWEITHGARWCH ECONOMAIDD YN ÔL RHYWEDD AC OEDRAN

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2019-Mehefin 2020




COVID-19

Ar y cyfan, mae'r gyfradd gweithgaredd economaidd i fenywod wedi cynyddu ychydig yn 2020, fodd bynnag mae'n amrywio yn ôl oedran, gyda bylchau ar sail rhywedd yn dod i'r amlwg. Mae gostyngiad yn y cyfraddau gweithgaredd economaidd ar gyfer menywod a dynion 20-24 oed, sy'n fwy tebygol o fod yn gweithio mewn sectorau sydd wedi gorfod cau. Er nad yw'r gyfradd ar gyfer dynion 25-34 oed wedi newid llawer, mae cynnydd o 4.3% i fenywod yn y grŵp oedran hwn. Gall y data fod yn fwy cyfnewidiol ar y lefel hon oherwydd maint sampl bach, ond bydd yn bwysig ystyried effaith Covid-19 ar weithwyr yn seiliedig ar nodweddion croestoriadol o'r fath i sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael yn waeth ei fyd.

CYFRADD ANWEITHGARWCH ECONOMAIDD YN ÔL RHYWEDD AC OEDRAN

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2019-Mehefin 2020




*Nid oes unrhyw newid sylweddol yn y cyfraddau gweithgaredd economaidd o'u cymharu â'r llynedd

PAM MAE DYNION A MENYWOD YN ECONOMAIDD ANWEITHGAR?

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2019-Mehefin 2020

Dynion Menywod



Gofalu am y teulu/cartref

6.5%
YN ERBYN
26.0%






CYFRADDAU CYFLOGAETH A DIWEITHDRA

CYFRADDAU DIWEITHDRA YN ÔL RHYWEDD AC OEDRAN

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2019-Mehefin 2020

Dynion Menywod



Dynion 2020

Menywod 2020

Dynion 2019

Menywod 2019

COVID-19


Mae pobl hunangyflogedig wedi cael eu taro'n arbennig o galed yn ystod Covid-19. Ym mis Mawrth 2020, lansiodd Llywodraeth y DU y Cyllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) i helpu busnesau oedd wedi gorfod cau yn ystod cyfnodau clo. Mae menywod yn 30% o'r rhai sy'n gymwys i gael SEISS yng Nghymru. Ym mis Medi 2020, y gyfradd hawlio ar gyfer y menywod hyn oedd 62%, sy'n is na'r gyfradd ar gyfer dynion ar 68%. Roedd gwerth y grant cyfartalog hefyd yn uwch i ddynion ar £2,500 o'i gymharu â menywod ar £1,900. Yng Nghymru gwnaed 28% o'r holl hawliadau gan fenywod.¹⁵



HUNANGYFLOGAETH

PA GYFRAN O FENYWOD A DYNION 16-64 OED SY'N HUNANGYFLOGEDIG?


Ffynhonnell: Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2018-Mehefin 2019 a Gorffennaf



PATRYMAU GWAITH

FAINT O FENYWOD A DYNION 16-64 OED SY'N GWEITHIO'N RHAN-AMSER?

Ffynhonnell: Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2018-Mehefin 2019 a Gorffennaf 2019-Mehefin 2020




COVID-19

Teimlwyd effaith ddinistriol Covid-19 galetaf ar yr economi a'r farchnad lafur mewn sectorau fel manwerthu, lletygarwch a hamdden, hedfan a thrafnidiaeth. Mae llawer o'r sectorau yma'n cael eu dominyddu gan weithluoedd menywod, a swyddi rhan-amser - sydd ar y cyfan yn cael eu dal gan fenywod. Mae Ystadegau'r Farchnad Lafur y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod y cynnydd mwyaf erioed mewn lefelau diweithdra erbyn mis Hydref 2020 wedi ei yrru gan ddynion hunangyflogedig yn colli eu swyddi a menywod a fyddai'n gweithio'n rhan-amser yn gadael y farchnad swyddi yn gyfan gwbl.¹⁶

PATRYMAU GWAITH YN ÔL OEDRAN, 2020


■ Dynion llawn amser
 ■ Menywod llawn amser
 ■ Dynion rhan-amser
 ■ Menywod rhan-amser



PATRYMAU GWAITH YN ÔL ORIAU

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf

■ Dynion
 ■ Menywod







CYNYRCHIOLAETH MENYWOD

Mae cynrychiolaeth menywod yn bwysig. Mae cael lleisiau amrywiol yn yr ystafell yn sicrhau bod gwahanol faterion, a gwahanol safbwyntiau, yn cael eu trafod. Mae'r amrywiaeth hon yn hanfodol bwysig mewn bywyd cyhoeddus, lle mae penderfyniadau sy'n effeithio ar ein bywydau o ddydd i ddydd yn cael eu gwneud

- Mewn perthynas â gwleidyddiaeth, ychydig o newid a welwn o ffigurau'r llynedd, sy'n ddealladwy o ystyried y cylchoedd etholiadol. Gydag etholiadau'r Senedd i fod i gael eu cynnal ym mis Mai 2021, mae dewis ymgeiswyr yn bwysig os ydym am sicrhau cydbwysedd o ran rhywedd yn y Senedd unwaith yn rhagor. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu, er bod rhai pleidiau wedi gweithredu er mwyn sicrhau rhestrau ymgeiswyr cytbwys, mae menywod ac ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig yn parhau i gael eu tangynrychioli'n gyffredinol.
- Bydd etholiadau awdurdodau lleol yn 2022 yn rhoi cyfle pellach i symud y deial, a dylai pleidiau gwleidyddol ystyried o ddifrif sut y gallant ddarparu rhestrau ymgeiswyr sy'n cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn well.
- Mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus, rydym wedi gweld cwmp eithaf dramatig yng nghyfran y menywod a benodwyd eleni, bydd angen monitro hyn yn agos er mwyn sicrhau nad yw'n arwydd o duedd. Bu cynnydd cymedrol yng nghyfran y bobl o leiafrifoedd ethnig sy'n cael eu penodi, ond mae'r ffigur ar gyfer penodiadau menywod fel cadeiryddion y flwyddyn ddiwethaf hon yn druenus o isel.





BUSNES A'R GWEITHLE

Rydym yn dal i weld gwahanu sylweddol ar sail rhywedd ar draws sectorau a galwedigaethau yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrannu at y bwlch cyflog ar sail rhywedd gan fod cyflogau uchel ac isel yn nodweddu gwahanol sectorau, ac mae wedi gadael menywod mewn perygl arbennig o Covid-19, o ran y risg o ddod i gysylltiad â'r firws ond hefyd mewn perthynas ag effeithiau economaidd. Mae gorgynrychiolaeth menywod mewn rolau gofal iechyd rheng flaen ac mewn sectorau fel manwerthu wedi eu gadael mewn perygl mawr o ddod i gysylltiad â'r firws. Yn ogystal, mae eu dominyddiaeth mewn rolau gwasanaeth â chyflog isel ar draws sectorau fel manwerthu a lletygarwch wedi eu gadael mewn mwy o berygl o golli swyddi, o gael eu rhoi ar ffyrlo neu o weld eu horiau'n cael eu lleihau.


Mae'r data diweddaraf yn dangos bod menywod yn dal i ddominyddu ym maes iechyd, addysg a gwasanaethau eraill, tra bod dynion yn dominyddu ym maes adeiladu, gweithgynhyrchu a TGCh. Fodd bynnag, rydym wedi gweld newidiadau cadarnhaol gyda chynnydd yng nghyfran y menywod yn y sectorau amaeth, gwybodaeth a chyfathrebu a'r sectorau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol.

Ni fu llawer o newid ers y llynedd yn y galwedigaethau y mae menywod a dynion yn gweithio ynddynt, ar wahân i gynnydd bach yng nghyfran y menywod sy'n gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol. Mae hwn yn newid cadarnhaol y byddwn yn parhau i'w fonitro er mwyn penderfynu a yw'n rhan o shifft tymor hwy ac a yw'n trosi i gyfran uwch o fenywod mewn swyddi uwch.


BETH YW'R CYDBWYSEDD RHYWEDD YN SECTORAU CYMRU?

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2019-Mehefin 2020

Dynion Menywod




Gwahaniaeth i 2019-20




YM MHA ALWEDIGAETHAU MAE DYNION A MENYWOD YN GWEITHIO?

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2019-Mehefin



PWY SY'N GWNEUD ROLAU UWCH A PHROFFESIYNOL?

Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar restr Twf Cyflym 50 2019



16%

O'R BUSNESAU SY'N TYFU GYFLYMAF YNG NGHYMRU YN CAEL EU HARWAIN GAN FENYWOD

Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar restr Twf Cyflym 50 2019

Cynnydd o 1.8% ers y llynedd

Cynnydd o 0.6% ers y llynedd



MENYWOD MEWN PERYGL

Mae menywod yn parhau i fod mewn mwy o berygl o dlodi, arwahanrwydd cymdeithasol, aflonyddu rhywiol a chaledi ariannol. Mae argyfwng Covid-19 wedi cynyddu ymhellach y risgiau sy'n bodoli eisoes ac wedi creu rhai newydd. Mae menywod yn cael eu gorgynrychioli mewn rolau rheng flaen sy'n golygu bod mwy o berygl iddynt gael eu heintio; maent yn fwy tebygol o weithio mewn sectorau sydd wedi cael eu cau sy'n golygu eu bod mewn perygl o galedi ariannol, ac maent i raddau helaeth wedi ysgwyddo baich addysgu gartref ac anghenion gofal ychwanegol sy'n olygu eu bod mewn perygl o syrthio allan o'r farchnad lafur a chynyddu'r risg o broblemau iechyd meddwl a llai o ymdeimlad o lesiant. Mae pryderon cynyddol ynghylch nifer yr ymosodiadau rhywiol ac achosion o gam-drin domestig sydd heb eu hadrodd oherwydd yr amgylchiadau a grëwyd gan y pandemig, a maint a natur y cam-drin sydd wedi'i gyfeirio at

fenywod ar gyfryngau cymdeithasol. Effeithiodd y pandemig ar y data yn yr adran hon a dylid ei ddarllen yng nghyd-destun y pandemig a'r cyfyngiadau rydym wedi bod yn byw oddi tanynt. Mae'r newidiadau syfrdanol i'r ffordd yr ydym yn byw ein bywydau wedi celu rhai ffigurau yn artiiffisial, er enghraifft achosion o dreisio, ond mae wedi cynyddu'r galw am wasanaethau cam-drin domestig. Bydd angen monitro'n agos effaith barhaus yr argyfwng ar y materion hyn a'r galw am wasanaethau cysylltiedig.

Cyflawnwyd

62% o'r holl droseddau rhywiol a 90% o'r holl achosion o dreisio yn erbyn menywod yn 2020.²²

Profodd

3.5% o fenywod 16-59 oed ryw fath o ymosodiad rhywiol yng Nghymru a Lloegr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.²³

AFLONYDDU A DIOGELWCH



Mae un o bob pump merch 14-21 oed wedi profi aflonyddu rhywiol cyhoeddus ers y cyfnod clo, er gwaetha'r ffaith eu bod wedi treulio llawer llai o amser mewn manau cyhoeddus¹⁷

Roedd

28% o ferched ifanc yn teimlo'n llai diogel mewn manau cyhoeddus yn ystod y cyfnod clo¹⁸

Profodd

25% (un o bob pedair) o ferched o leiaf un math o gamdriniaeth, bwlio neu aflonyddu rhywiol ar-lein yn ystod y cyfnod clo¹⁹

Mae


69% o ferched yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel yn cerdded ar eu pennau eu hunain ar ôl iddi nosi o'i gymharu ag 87% o ddynion²⁰

Gwelwyd

-8% o newid ers y llynedd yn nifer yr achosion troseddau rhywiol yn erbyn menywod yr adroddwyd amdanynt²¹

CYFRAN YR OEDOLION A DDIODDEFODD UNRHYW GAM-DRIN DOMESTIG, YN ÔL RHYW AC OEDRAN, 2020

Domestic abuse prevalence and victim characteristics - Appendix tables - ONS (ons.gov.uk), Table 6.



CANOLFANNAU RAPE CRISIS AR DRAWS CYMRU A LLOEGR

EBRILL 2019-MAWRTH 2020

Ffynhonnell: <https://rapecrisis.org.uk/get-informed/rcew-statistics/>

194,881 Roedd 194,881 o gysylltiadau llinell gymorth ar-lein a thros y ffôn; cynnydd o 5% o'i gymharu â 2018-19

Roedd **35%** o'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth o dan 25 oed

Roedd **91%** o ddefnyddwyr gwasanaeth yn fenywod

Roedd **18%** o ddefnyddwyr gwasanaeth yn hunanddiffinio fel Du neu Leiafrif Ethnig, pan fo ethnigrwydd yn hysbys

Roedd **30%** o'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn hunanddiffinio fel person Anabl

CAM-DRIN DOMESTIG

Roedd

77%

o fenywod 16-74 oed a ddiodeffodd unrhyw gam-drin domestig wedi profi rhyw fath o gam-drin gan bartner yng Nghymru a Lloegr, cynnydd o 2% ers y llynedd²⁴

Mae

16%

o'r holl droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru yn gysylltiedig â cham-drin domestig²⁵

Cofnodwyd

1,032

yn fwy o achosion o droseddau cysylltiedig â cham-drin domestig gan yr heddlu o'i gymharu â'r llynedd yng Nghymru²⁶

Cafodd

53%

o'r holl droseddau o drais yn erbyn menywod a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru eu nodi fel rhai cysylltiedig â cham-drin domestig²⁷

6,896

Derbyniodd Llinell Gymorth Byw Heb Ofn Cymorth i Ferched Cymru 6,896 o alwadau yn ystod Ebrill i Fehefin 2020; gostyngiad o 14% ers y llynedd²⁸



Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800 (cafodd /text)

GALW AM WASANAETHAU CYMORTH LLOCHES, CYMUNEDOL A THRAIS RHYWIOL YNG NGHYMURU, EBRILL I FEHEFIN 2020

Ffynhonnell: Cymorth i Ferched Cymru trwy Domestic abuse in England and Wales overview - Office for National Statistics

	Galw am wasanaethau cymorth lloches, cymunedol a thrais rhywiol	
	Ebrill i Fehefin 2020	% gwahaniaeth ers 2019
Cyfanswm y dioddefwyr a gefnogwyd	7,746	29.3%
Nifer yr atgyfeiriadau newydd a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod	6,652	44.8%
Nifer y dioddefwyr a atgyfeiriwyd ac a ymgysylltodd â'r gwasanaeth	3,913	36.7%
Nifer y dioddefwyr na allai'r gwasanaeth eu cefnogi	876	95.5%
Nifer y dioddefwyr na dderbyniodd gefnogaeth gan y gwasanaeth	1,565	50.2%
Nifer y dioddefwyr ar y rhestr aros ar ddiwedd y cyfnod	1,020	68.9%



TLODI


Mae cyfraddau tlodi yng Nghymru yn parhau i fod yn uchel, a disgwylir iddynt godi trwy gydol y pandemig. Bydd yn cymryd amser i weld effaith lawn y pandemig ar ffigurau tlodi, ond rydym yn gwybod bod llawer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd o ganlyniad i'r sefyllfa economaidd bresennol oherwydd colli swyddi, llai o oriau gwaith neu oherwydd eu bod wedi syrthio trwy rwyd cynlluniau cymorth Covid-19. Mae cysylltiad agos rhwng risg menywod o dlodi a'u safle yn y farchnad lafur ac o fewn cartrefi, sydd wedi bod yn gyfnewidiol yn ystod y pandemig. Mae gweithluoedd llawer o'r diwydiannau sydd wedi cau, fel lletygarwch a manwerthu, yn cael eu dominyddu gan fenywod sy'n golygu bod menywod mewn mwy o berygl o golli swyddi a chael llai o oriau neu dâl. Mae'r argyfwng economaidd presennol a achoswyd gan y pandemig yn debygol o effeithio ar fenywod yn fwy difrifol, gyda sectorau lle mae menywod yn eu dominyddu yn debygol o aros ar gau am gyfnod hirach neu lle mae adferiad yn debygol o gymryd mwy o amser. Wrth i ni

symud trwy, ac allan o'r argyfwng, bydd yn hanfodol monitro'r effaith ar incwm menywod a gweithredu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei withio ymhellach i dlodi.

Fel ail enillwyr, neu brif ofalwyr, mae incwm annibynnol llawer o fenywod yn gyfyngedig, gan olygu eu bod yn arbennig o agored i lithro i dlodi pe bai perthynas yn chwalu, neu trwy golli incwm partner. Mae menywod yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn rolau rhan-amser, â chyflog isel ac yn aml mae'n rhaid iddynt wneud penderfyniadau anodd ynghylch a ddylid gweithio neu ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb am ofalu am eu plant. Daeth cyfrifoldebau gofalu ychwanegol i'r amlwg oherwydd rheoliadau Covid-19, sydd wedi arwain at fwy o fenywod mewn perygl o syrthio allan o'r farchnad lafur yn gyfan gwbl.


Datblygwyd gwahanol gynlluniau cymorth mewn ymateb i argyfwng Covid-19 gan lywodraethau'r DU a Chymru. Amser a ddengys a yw'r cynlluniau hyn yn

gynaliadwy, yn ddigonol i atal pobl rhag lithro i dlodi, ac a yw menywod wedi gallu elwa'n llawn ohonynt. Mae gan gynlluniau fel pecynnau prydau ysgol am ddim, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gyflwynir gan awdurdodau lleol i'r teuluoedd mewn angen, rôl hanfodol wrth gefnogi teuluoedd sydd ar fin llithro i dlodi. Mae'n hanfodol sicrhau bod camau'n parhau i gael eu cymryd i gefnogi'r rhai mwyaf bregus.

Mae ffigurau'n parhau i fod yn heriol wrth geisio deall maint llawn tlodi menywod. Mae data'n parhau i ddangos bod bod yn rhiant sengl a gweithio'n rhan-amser yn ffactorau risg - sefyllfaoedd y mae menywod yn fwy tebygol o fod ynddynt; eto, mae ffigurau'n cuddio'r darlun o dlodi menywod gan eu bod yn seiliedig ar fesurau tlodi cartrefi. Felly, mae'n bwysig edrych ar brofiadau byw menywod mewn tlodi ochr yn ochr â'r data ystadegol, fel y mae ein hadroddiad **Yn Gaeth: Tlodi ymhlith menywod yng Nghymru**  heddiw yn ei wneud.²⁹

PWY SYDD MEWN MWY O BERYGL O WYNEBU TLODI?


Ffynhonnell: Stats Wales, HBAI, 2019: Pobl mewn tloidi cymharol yn ôl math o deulu 2015-16 i 2017-18 a 2016-17 i 2018-19



MAE
86%
O RIENI
SENGL YN
FENYWOD³⁰

PATRYMAU GWEITHIO A THLODI


Ffynhonnell: Stats Cymru, HBAI, 2019: Oedolion o oedran gweithio yn tloidi incwm cymharol yn ôl y math o gyflogaeth: 2015-16 hyd at 2017-18 a 2016-17 i 2018-19



MAE

23%


O AELWYDYDD YNG
NGHYMRU YN BYW
MEWN TLODI INCWM
CYMHAROL




GWEITHWYR
RHAN-AMSER YNG
NGHYMRU

FFYNHONNELL: STATS WALES, HBAI,
2019⁷

MAE



O'R RHAI SY'N HAWLIO CREDYD CYNHWYSOL YNG NGHYMURU YN FENYWOD³¹



HAWLWYR CREDYD CYNHWYSOL YNG NGHYMURU SYDD MEWN GWAITH³²



DIWYGIADAU I NAWDD CYMDEITHASOL A LLES

Ni fu ein system nawdd cymdeithasol erioed yn bwysicach, nac yn cael ei defnyddio mor helaeth ag y mae yn yr argyfwng presennol. Wrth i'r DU symud i'r cyfnod clo, cynyddodd yr angen am gymorth ariannol. Er bod cynlluniau fel y cynllun ffyrlo wedi cael eu rhoi ar waith yn benodol i ymateb i'r argyfwng, roedd llawer o bobl yn dibynnu ar Gredyd Cynhwysol (UC).


Er ein bod wedi gweld cyfran y menywod sy'n hawlio UC yn gostwng ychydig o ffigurau'r llynedd, yn gyffredinol mae nifer y bobl sy'n hawlio UC wedi cynyddu'n

esbonyddol - i fyny 107% ers 2019, gyda chynnydd mwy yn nifer y dynion sy'n hawlio UC. Mae hawlwyf benywaidd UC yng Nghymru yn parhau i fod yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth.

Erys pryderon ynghylch pa mor dda y gall UC ymateb i anghenion gwahanol grwpiau. Rydym yn dal i bryderu bod ei ddyluniad yn parhau i roi menywod dan anfantais ac yn atgyfnerthu anghydraddoldeb, ac mae angen cymryd camau i unioni'r anghydraddoldeb hwn.

NEWID YN NIFER Y BOBL AR GREDYD CYNHWYSOL O'R LLYNEDD

Ffynhonnell: Ystadegau Budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWPF) drwy Stat-Explore



CASGLIAD

Nid oes unrhyw un yng Nghymru nad yw Covid-19 wedi effeithio arno eleni; mae wedi cyflwyno heriau na allem fod wedi'u dychmygu flwyddyn yn ôl ac nad oedd y mwyafrif o bobl erioed yn credu y byddai'n rhaid i ni eu hwynebu yn ystod ein hoes. Bu adegau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf lle mae hi bron wedi bod yn amhosibl canolbwyntio ar unrhyw beth heblaw am Covid-19, ac rydym wedi gweld effeithiau'r pandemig yn estyn i bob agwedd ar ein bywydau - ein hiechyd, ein teuluoedd, ein cymunedau a rhwydweithiau cymorth, ein gwaith, ein rhagolygon ar gyfer y dyfodol, patrwm ein bywyd bob dydd. Ond rydym hefyd wedi gweld anghydraddoldeb canlyniadau Covid-19, ac mae hyn yn ei gwneud yn bwysicach nag erioed i ymdrechu'n fwy dygn os ydym am gyflawni'r weledigaeth ar gyfer cydraddoldeb rhyweddol, sy'n seiliedig ar degwch a chydraddoldeb canlyniad, nid cyfle yn unig.

Mae eleni wedi dangos yn fwy nag erioed, heb newid ein hymagwedd at ystod o bolisi cyhoeddus, ymyriadau sector preifat, a phenderfyniadau personol, bydd Covid-19 nid yn unig yn drasiedi bersonol i lawer o bobl a theuluoedd, ond bydd yn gohirio ein cynnydd ar y llwybr tuag at wir gydraddoldeb am genhedlaeth arall. Ni allwn sefyll o'r neilltu a gadael i hyn ddiwydd.

Mae edrych ar y data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn dangos bod rhai newidiadau wedi digwydd, i'r bwlch cyflog ar sail rhywedd, i brofiad menywod o weithio mewn rhai sectorau. Fodd bynnag, wrth i Covid-19 barhau i mewn i hanner cyntaf 2021 o leiaf, mae angen i ni ddadansoddi'r tueddiadau tymor hir. Mae risg wirioneddol y bydd yr anghydraddoldebau strwythurol y mae llawer yng Nghymru yn eu profi, yn cael eu hamlygu a'u gwaethygu ymhellach gan yr argyfwng hwn, ac mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i

fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol.

Dyna pam mae **Maniffesto Chwarae Teg ar gyfer Cydraddoldeb Rhywedd yng Nghymru** yn


nodi polisiau a chamau gweithredu clir y dylid eu mabwysiadu i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad hwn. Mae awydd i wneud pethau'n wahanol wedi bod yn brif sail Cymru ddatganoledig, gydag ansawdd fel piler arweiniol wrth sefydlu Senedd Cymru. Ond ni fydd polisiau a gwleidyddion newydd yn unig yn gwneud y newidiadau y mae angen i ni eu gweld. Mae yna gyfrifoldeb ar bob un ohonom wrth i ni ddod allan o ddyddiau Covid-19 i feddwl yn gynt, ac yn fwy radical am yr hyn y gallwn i gyd ei wneud, a sut y dylem wneud hynny, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni Cymru sy'n wirioneddol gyfartal o ran rhywedd i bawb, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.


ÔL-NODIADAU


1 Cymdeithas Fawcett, Gadael Lockdown: Yr Effaith ar Fenywod; mis Mai 2020. 

2 Ibid.


3 Chwarae Teg, Covid-19: Menywod, Gwaith a Chymru; mis Hydref 2020. 


4 Rodríguez J. ac Ifan G., Dadansoddiad Cyllidol Cymru, Covid-19 ac economi Cymru: sectorau cau a gweithwyr allweddol, Mehefin 2020. 

5 Grŵp Cyllideb Menywod, Menywod â chyflog isel sydd fwyaf mewn perygl o ddod i gysylltiad â Covid-19, Mawrth 2020. 


6 Andrew A., Cattan S. et al., Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Sut mae mamau a thadau yn cydbwysu gwaith a theulu o dan gyfyngiadau symud?, Mai 2020. 

7 Grŵp Cyllideb Menywod, Gofal Plant, Rhywedd a Covid-19, Tachwedd 2020. 

8 Grŵp Cyllideb Menywod, Gwrthdaro Argyfyngau: Menywod a Covid-19, Ebrill 2020. 

9 Ystadegau Cymru, Erthygl Ystadegol, Coronafeirws (COVID-19) a'r boblogaeth Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yng Nghymru, Mehefin 2020. 

10 BBC Newyddion, Coronafeirws: Cyfnod clo 'helpodd fi i gyfrannu mwy yn y gwaith', 29 Awst 2020. 


11 BBC Newyddion, Covid: Mae ceisiadau am waith wedi'u gwrthod gan un rhan o bump o bobl anabl, 23 Tachwedd 2020. 


12 Ibid.

13 Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), Dadansoddiad yn y Gweithle, 2019-20

14 Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2018-Mehefin 2019 a Gorffennaf 2019-Mehefin 2020


15 GOV.UK, Ystadegau'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig: Hydref 2020. 


16 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), Trosolwg o'r farchnad Lafur, y DU: Hydref 2020. 

17 Cynllun Rhyngwladol y DU, Cyflwr Hawliau Merched yn y DU: Mewnwelediad cynnar i effaith y pandemig coronafeirws ar ferched, Mai 2020. 


18 Ibid.


19 Ibid.

20 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), Troseddu yng Nghymru a Lloegr: Tablau atodol blynyddol, Gorffennaf 2020, Tabl S37. 

21 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), Troseddu yng Nghymru a Lloegr: Tablau atodiadau, Hydref 2020, Tabl A4. 

22 Ibid.


23 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), Troseddu yng Nghymru a Lloegr: Tablau atodol blynyddol, Gorffennaf 2020, Tabl S41b 


24 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), nifer yr achosion o gam-drin domestig a nodweddion dioddefwyr - Tablau Atodiadau, Tachwedd 2020, Tabl 5A. 


25 Ibid. Tabl 9.

26 Ibid. Tabl 1.

27 Ibid. Tabl 12.

28 Cymorth i Ferched Cymru - Trosolwg o Linell Gymorth Byw Heb Ofn drwy gam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk) Tachwedd 2020. 

29 Chwarae Teg, Yn Gaeth: Tlodi ymhlith menywod yng Nghymru heddiw, Rhagfyr 2019. 

30 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), Teuluoedd ac aelwydydd yn y DU: 2019. 

31 Ystadegau budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) drwy Stat-Xplore

32 Ibid.



chwaraeteg.com



02920 462 745



@chwaraeteg #SotN